



Polisi Adnabod Rhifau Cerbydau'n Awtomatig (ANPR)

Crynodeb polisi:	o'r	<i>Polisi Defnydd / Meddalwedd Adnabod Rhifau Cerbydau'n Awtomatig</i>
Rhif y polisi:		<i>035/2021</i>
Rheoli fersiynau:		<i>Fersiwn: 4.0 Dyddiad: 03/09/2021 Awdur: [REDACTED] Rhesymwaith: Dyddiad cymeradwyo Mae tabl rheoli fersiynau llawn ar gael yma.</i>
Dyddiad gweithredu:		<i>03/09/2021</i>
Dyddiad adolygu:		<i>03/09/2021</i>
Perchennog/cyswllt: (wedi'i gymeradwyo gan – y Bwrdd)		<i>Ditectif Uwch-arolygydd [REDACTED]</i>
Ymgynghori chymeradwyo	a	<i>Grŵp Prosiect ANPR Strategol</i>
Cyfieithiad Saesneg		<i><u>Oes</u> / Nac Oes</i>



1. Datganiad Polisi

Mae'n berthnasol ar gyfer y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny): Holl categorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.

Llywodraethu a Safonau

Mae Portffolio ANPR Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n ffurfio rhan o'r Portffolio Cudd-wybodaeth o fewn Maes Busnes Trosedd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Arweinir Portffolio ANPR Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu gan y Prif Gwnstabl Hall (Heddlu Swydd Hertford), sydd ag awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor Prif Gwnstabliaid ar gyfer rheoli'r holl fusnes ANPR cenedlaethol o fewn plismona. Cefnogir Arweinydd ANPR Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu gan Reolwr Gallu Strategol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, sy'n rheoli'r portffolio ANPR cenedlaethol ar ei ran.

Grŵp strategol cenedlaethol yw'r Grŵp Arweinyddiaeth Gallu ANPR sy'n cael ei gadeirio gan Arweinydd ANPR Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ac sy'n gweithredu fel grŵp cyfeirio uwch ar gyfer datblygu galluoedd ANPR strategol, gan gynnwys systemau ac isadeiledd technegol. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Gallu ANPR yn darparu goruchwyliaeth strategol a arweinir gan yr heddlu o ran cyflenwi'r Fframwaith Gallu ANPR Cenedlaethol. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter.

Mae'r Grŵp Optimeiddio Gallu ANPR cenedlaethol yn darparu goruchwyliaeth amlasiantaeth ar lefel weithredol gallu ANPR cenedlaethol. Fe'i cefnogir gan

SWYDDOGOL



weithgorau, sy'n cynnwys arbenigwyr testun pwnc ANPR, Cadeiryddion Rhanbarthol ac aelodau cynrychioladol Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith sy'n cynrychioli eu heddlu neu eu rhanbarth. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter ac yn adrodd wrth y Grŵp Optimeiddio Gallu ANPR.

Mae Grŵp Gallu ANPR Rhanbarthol Cymru'n dod â'r pedwar heddlu yng Nghymru (Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru), ynghyd ag asiantaethau partner, at ei gilydd er mwyn cydlynu cyflenwi'r Strategaeth ANPR Genedlaethol (2020-2024) a'r prosiect Gwasanaeth ANPR Cenedlaethol i gefnogi'r Gallu ANPR Cenedlaethol o ran diogelu'r cyhoedd, lleihau trosedd a dwyn troseddwr i gyfiawnder. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob chwarter ac yn adrodd wrth y Grŵp Optimeiddio Gallu ANPR.

Pennir rheolaeth strategol gallu ANPR Heddlu Dyfed-Powys gan Grŵp Strategol ANPR HDP, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cudd-wybodaeth. Mae cynrychiolaeth ar y grŵp yn cynnwys arbenigwyr ANPR, yr Adran Gweithrediadau Arbenigol, Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu, Dadansoddydd/Dadansoddwyr Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth yr Heddlu, TGCh a'r Adran Gyllid. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter, ac yn gosod yr amcanion strategol a thactegol, sy'n gymesur â datblygiad polisi rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r grŵp yn adrodd wrth Fwrdd Cyllid a Strategaeth HDP.

O fewn Heddlu Dyfed-Powys, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yw'r Prif Swyddog arweiniol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol o fewn yr Heddlu ar gyfer darpariaeth ANPR. Mae'r chyfrifoldeb hwn yn cynnwys darpariaeth monitro system; sicrhau bod aelodau staff wedi'u hyfforddi'n briodol yn unol â'u hanghenion, a bod y system yn cael ei monitro ar gyfer cydymffurfiaeth â'r Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith. Y Cyfarwyddwr Cudd-wybodaeth yw'r arweinydd strategol.

SWYDDOGOL



Mae'r Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith yn disgrifio'r safonau y mae angen eu bodloni ar gyfer datblygiad a defnydd systemau ANPR gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Y polisi ar gyfer datblygiad a defnydd ANPR o fewn Heddlu Dyfed-Powys yw ei fod yn gyson â'r Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith, ac mae'r ddogfen hon yn amlinellu atebolrwydd a chyfrifoldeb yn y cyswllt hwnnw.

Bydd datblygiad isadeiledd yn unol â'r Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith, a bydd pob cynnig ar gyfer isadeiledd newydd yn cael ei gyflwyno i Grŵp Strategaeth ANPR yr Heddlu, sy'n gyfrifol am gadarnhau bod y cynigion yn briodol a chymesur ac wedi ystyried yr asesiad strategol a'r asesiad o'r effaith ar breifatrwydd, a chydbwyso amddiffyn y cyhoedd â hawliau a disgwyliadau cyfreithlon preifatrwydd unigol. Mae angen y cadarnhad hwnnw cyn bod unrhyw ddatblygiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran ehangu.

Bydd Grŵp Strategaeth ANPR yr Heddlu'n sicrhau bod trefniadau mewn grym ar gyfer adolygu lleoliadau pob Dyfais Darllen Platiau Rhif sy'n cyflwyno data i'r system ANPR unwaith y flwyddyn o leiaf er mwyn sicrhau bod y lleoliad dal yn addas a chymesur.

Lleolir systemau ANPR wedi'u gosod mewn cerbydau yn unol â'r Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith sy'n ymwneud â lleoli systemau wedi'u gosod mewn cerbydau.

Bydd unrhyw leoliad ar gyfer cefnogi ymateb gweithredol yn dilyn adroddiad am drosedd neu ddigwyddiad ond yn cael ei wneud ar awdurdod Arolygydd/Goruchwylydd Ystafell Reoli'r Heddlu o fewn Ystafell Reoli Heddlu Dyfed-Powys, a bydd cofnod o'r awdurdod hwnnw'n cael ei wneud o fewn y log digwyddiadau.



Bydd Comandariaid URS yn sicrhau bod y defnydd o ANPR wedi'i fewnosod ym mhrosesau tactegol a strategol yr heddlu.

Diben cyffredinol y polisi hwn yw gwireddu manteision defnyddio ANPR mewn perthynas â:

- Cefnogi ymgyrch neu fenter genedlaethol Gwrthderfysgaeth.
- Cefnogi ymgyrch neu fenter leol Gwrthderfysgaeth.
- Cefnogi amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.
- Cefnogi ymchwilio i droseddau difrifol.
- Cefnogi mentrau plismona'r ffyrdd.
- Atal a datrys troseddau.
- Casglu tystiolaeth a chudd-wybodaeth.
- Rheoli meysydd strategaeth.

2. Cwmpas y Polisi

Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yw'r brif gronfa ddata ar gyfer cefnogi ymateb gweithredol. Pryd bynnag y bo'n bosibl, defnyddir dolen 'fyw' Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Darperir ffeil echdynnu Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu 3 gwaith bob 24 awr; bydd yr Arbenigwr ANPR yn sicrhau ei bod yn cael ei llwytho ar y system ANPR ar ôl ei derbyn.

O fewn ffeiliau Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, yr adroddiad ACT yw'r brif gronfa ddata. Defnyddir y gronfa ddata hon er mwyn cylchredeg unrhyw gerbyd o ddiddordeb sy'n bodloni'r meini prawf o fewn rheolau busnes Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Bydd yn cael ei monitro 24/7 o fewn Ystafell Reoli Heddlu Dyfed-Powys a bydd adnoddau'n cael eu defnyddio fel y bo'n briodol. Pennir adroddiadau ACT fel rhai blaenoriaeth uchel, isel a chanolig. Yn ystod cyfnodau lle mae mwy o alw ar adnoddau, gydag awdurdod Arolygydd/Goruchwylydd Ystafell

SWYDDOGOL



Reoli'r Heddlu o fewn Ystafell Reoli Heddlu Dyfed-Powys, gall adroddiadau am gydweddiadau yn erbyn adroddiadau ACT blaenoriaeth is a/neu ganolig gael eu hidlo fel nad ydynt yn cael eu monitro. Rhaid i adroddiadau ACT blaenoriaeth uwch gael eu monitro bob amser.

Gall rhestr leol o gerbydau o ddiddordeb gael ei defnyddio i gylchredeg cerbydau ar gyfer dibenion monitro cudd-wybodaeth neu mewn amgylchiadau sydd ddim yn bodloni'r safonau i'w cynnwys ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu fel adroddiad ACT ar gyfer ymateb gweithredol. Gall rhestri lleol cerbydau o ddiddordeb gael eu cyflwyno i asiantaeth gorfodi'r gyfraith arall i gefnogi gweithgarwch trawsffin neu weithgarwch gweithredol penodol. Ni ddylid cylchredeg y rhestri hyn yn genedlaethol.

Bydd yr aelod staff sy'n creu rhestr o gerbydau o ddiddordeb yn sicrhau bod y wybodaeth ynddi'n gywir, o berthnasedd cyfredol ac yn y ffurf a bennir o fewn y Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith.

Bydd yr Arbenigwr ANPR yn monitro creu, defnyddio a chynnal rhestri lleol o gerbydau o ddiddordeb ar gyfer dibenion ymateb gweithredol, gan adrodd am bryderon wrth yr Arweinydd Strategol fel y bo'n briodol.

Bydd yr Arweinydd Strategol yn sicrhau bod trefniadau mewn grym i fonitro creu, defnyddio a chynnal rhestr o gerbydau o ddiddordeb ar gyfer dibenion monitro cudd-wybodaeth.

Gwerthuso Perfformiad

Mae'r Arbenigwr ANPR yn gyfrifol am fonitro perfformiad holl gydrannau'r Isadeiledd ANPR.

SWYDDOGOL



Asesir perfformiad y ddyfais darllen plat rhif wrth ei gosod, ac ar ôl hynny, o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer pob dyfais darllen plat rhif sy'n darparu delweddau ategol a bob 6 mis ar gyfer rhai sydd ddim yn darparu delweddau yn unol â Rhan 2 Paragraff 12 y Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith.

Mynediad at Ddata

Mae'r Arweinydd Strategol, ynghyd â'r Arbenigwr ANPR, yn atebol am awdurdodi aelodau staff a allai gael mynediad at ddata ANPR. Bydd yr arweinydd strategol yn sicrhau bod cofnod o aelodau staff awdurdodedig yn cael ei gynnal a bod awdurdod yn cael ei adolygu, ei ddiwygio neu ei ganslo wrth i rolau newid, fel y bo'n briodol.

Caiff staff fynediad at ddata ANPR i'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl yn unig.

Rhaid i staff sy'n cael mynediad at ddata ANPR sicrhau bod y mynediad yn briodol ym mhob achos, gan ystyried y Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith, a'i fod wedi'i awdurdodi'n briodol pan fod angen.

Rhaid i staff sy'n awdurdodi mynediad at ddata ANPR sicrhau bod mynediad yn gymesur ac er budd cyfiawnder ym mhob achos, gan ystyried y Ddeddf Diogelu Data a darpariaethau mynediad at ddata'r Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith.

Defnydd Tystiolaethol a Datgelu Data

Defnyddir data ANPR ar gyfer dibenion gorfodi'r gyfraith o ran atal, datrys neu erlyn tramgwyddau troseddol ac mae ganddo ran arwyddocaol i'w chwarae mewn perthynas â dwyn troseddwr i gyfiawnder. Bydd datgelu data ANPR yn unol â chanllawiau cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

SWYDDOGOL



Ymgynghorir â'r Ditectif Ringyll â'r Portffolio ANPR cyn paratoi amserlenni datgelu o dan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 a chyn y bydd unrhyw ddata'n cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw weithdrefnau. Bydd y Ditectif Ringyll â'r Portffolio ANPR hefyd yn hwyluso ymgysylltu ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill fel y bo'n briodol.

Osgoir datgelu methodoleg, tactegau a lleoliadau camera ANPR pryd bynnag y bydd yn bosibl er mwyn sicrhau gwerth parhaus ANPR fel gallu gweithredol ac ymchwiliol. Mae'r paragraffau canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer cefnogi'r amcan hwn. Cyfeirir pryderon mewn perthynas â datgelu neu ddefnydd tystiolaethol at yr Arweinydd Strategol ar gyfer ei ystyriaeth.

Dim ond staff a bennir gan yr Arweinydd Strategol caiff roi datganiadau o dystiolaeth.

Yn ystod ymchwiliad, ni ddatgelir delweddau ANPR, methodoleg ymchwiliad, tactegau neu fapiau sy'n dangos lleoliadau camerâu ANPR i ddrwgdybiedigion neu eu hymgyngorwyr cyfreithiol heb gymeradwyaeth y Ditectif Ringyll sydd â'r Portffolio ANPR.

Bydd y Ditectif Ringyll â'r Portffolio ANPR yn cynghori ymchwilwyr ynghylch y wybodaeth a allai gael ei datgelu ym mhob achos. Mewn perthynas â lleoliadau, y dewisiadau yw (yn nhrefn blaenoriaeth gostyngol), ardal gyffredinol y lleoliad (e.e. tref, ardal, Bwrdeistref Metropolitaidd), y cod post, enw'r ffordd, union leoliad y darlenniad ANPR.

Bydd datganiadau o dystiolaeth ond yn cael eu paratoi ar ôl i weithdrefnau gael eu cychwyn ac yn dilyn cais penodol gan Wasanaeth Eryl y Goron (GEG). Bydd pob cais yn cael ei gyfeirio at y Ditectif Ringyll â Phortffolio ANPR i'w awdurdodi er mwyn darparu deunydd tystiolaethol.

SWYDDOGOL



Bydd y Ditectif Ringyll â'r Portffolio ANPR yn ymgysylltu â'r staff GEG sy'n gwneud y cais ac yn cyfeirio at yr arweinydd strategol ar gyfer ANPR er ystyriaeth mewn achosion o bryder.

Bydd deunydd ANPR sydd ddim yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn cael ei gynnwys ar yr Atodlen Deunydd Sensitif MG6D.

Archwilio a Sicrhau Ansawdd

Bydd yr Arweinydd Strategol yn sicrhau darpariaethau ar gyfer darparu cofnod o fynediad at ddata ANPR gan ei staff, gan gynnwys y rheswm dros y mynediad hwnnw a manylion unrhyw awdurdodiad o'r mynediad hwnnw lle bydd angen.

Bydd yr Arweinydd Strategol yn sicrhau bod darpariaethau ar gyfer archwilio mynediad at ddata ANPR yn rheolaidd mewn grym, â chofnod o'r holl weithgarwch archwilio sydd wedi digwydd. Bydd yr Arweinydd Strategol yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cydymffurfiaeth ac Archwiliad o ANPR ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith.

Lle mae Rheolwr Data o asiantaeth gorfodi'r gyfraith arall wedi cael mynediad at ddata, darperir manylion y Rheolwr Data hwnnw i'r Rheolwr Data ar gais.

Bydd manylion archwiliadau yr ymgymmerir â nhw ar gael i'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth a'r Swyddfa Gartref ar gais.



3. Pwerau a Gofynion Cyfreithiol/Polisi

Caffael

Cyfrifoldeb Arbenigwr ANPR yr heddlu yw caffael offer ANPR newydd. Rhaid bod cyflenwyr offer newydd yn medru bodloni'r Heddlu bod unrhyw offer ANPR newydd yn cydymffurfio â'r fersiwn gyfredol o'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cydymffurfiaeth ac Archwiliad o ANPR ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith. Bydd derbyn offer o'r fath yn amodol ar werthusiad a chymeradwyaeth yr Arbenigwr ANPR. Bydd offer newydd a phresennol yn ddarostyngedig i werthusiad blynyddol a fydd yn cael ei gynnal gan yr Arbenigwr ANPR er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth parhaus â gofynion perfformiad y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cydymffurfiaeth ac Archwiliad o ANPR ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith.

Cyfrifoldeb Grŵp Strategaeth ANPR yr Heddlu fydd prynu offer, newidiadau, diweddariadau a chostau cysylltiedig. Bydd y defnydd tactegol a strategol o ANPR hefyd yn destun adolygiad rheolaidd gan y Grŵp.

Diogelwch Systemau

Mae mynediad at y system BOF wedi'i gyfyngu i staff hyfforddedig ac awdurdodedig, yn unol â gofynion cyfredol y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cydymffurfiaeth ac Archwiliad o ANPR ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith. Rhoddir caniatâd gweithredwr yn unol â rôl a swyddogaeth, sydd hefyd yn cael ei reoli gan Weinyddwyr BOF. Disgwylir i'r Arbenigwr ANPR archwilio mynediad defnyddwyr BOF bob mis. Mae gan Adran TG yr Heddlu'r gallu i ganiatáu mynediad at BOF o bell hefyd i beirianwyr hysbys sydd wedi'u fetio'n addas wrth i bob angen godi. Ni chaniateir mynediad o bell agored a di-rwystr i'r system BOF.

Diogelu, Storio, Cadw a Defnyddio Data

SWYDDOGOL



Mae'r Heddlu wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl Ddata Darllen a Bwrw ANPR yn cael ei storio a'i gadw o fewn y system BOF, yn unol â'r safonau lleiaf a osodir gan fersiwn gyfredol y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cydymffurfiaeth ac Archwiliad o ANPR ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith. Bydd storio, cadw a defnyddio'r holl ddata o'r fath yn gyson â gofynion Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Hawliau Dynol 1998, a Chod a Chanllawiau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.

Yn unol â Safonau Cenedlaethol ANPR Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, bydd data ANPR yn cael ei gadw fel gwybodaeth fyw ar gyfer y cyfnodau isod:-

- Darllen Data Testun Argymelledig Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu - 1 flwyddyn
- Delwedd clwt plat - 1 flwyddyn
- Delwedd trosolwg - 6 mis
- Bwrw Data Testun Gofyniad yr Heddlu - 1 flwyddyn (canllawiau Safonau Cenedlaethol ANPR Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu)
- Delwedd clwt plat - 1 flwyddyn (canllawiau Safonau Cenedlaethol ANPR Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu)
- Delwedd trosolwg - 6 mis

Ar hyn o bryd, nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn rhannu ei ddata ANPR y tu allan i'r Gwasanaeth Heddlu heblaw eu bod nhw'n asiantaeth gorfodi'r gyfraith sydd ag awdurdod i gael mynediad at y Gwasanaeth ANPR cenedlaethol. Byddai pob mynediad arall yn ddarostyngedig i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth.

Ystyriaethau Gwyliadwriaeth

ANPR – Codau Ymarfer Gwyliadwriaeth 2018

SWYDDOGOL



3.39 Lle y defnyddir TCC, ANPR neu gamerâu gwylidwriaeth amlwg eraill mewn modd cudd wedi'i gynllunio ymlaen llaw fel rhan o ymgyrch neu ymchwiliad penodol, ar gyfer gwylidwriaeth unigolyn penodol neu grŵp o bobl, dylid ystyried awdurdod gwylidwriaeth gyfeiriedig. Mae gwylidwriaeth gudd o'r fath yn debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am unigolyn (sef cofnod o'i symudiadau a'i weithgareddau), ac felly mae'n syrthio'n briodol o fewn y diffiniad o wylidwriaeth gyfeiriedig. Mae'r defnydd o ANPR, TCC neu gamerâu gwylidwriaeth amlwg arall yn yr amgylchiadau hyn yn mynd tu hwnt i'w defnydd arfaethedig ar gyfer atal neu ddatrys troseddau a gwarchod y cyhoedd yn gyffredinol.

Dogfen Gweithdrefnau a Chanllawiau 2016 y Swyddfa Comisiynwyr Gwylidwriaeth (Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio)

Mae monitro a recordio symudiadau unigolyn neu gerbyd penodol (yn gyson neu'n ysbeidiol) dros bellter neu gyfnod hir, pan nad oes camau gweithredu'n cael eu cymryd i stopio'r cerbyd neu unigolyn pan mae'n cael ei weld yn gyntaf, yn medru bod yn wylidwriaeth gyfeiriedig a dylid ceisio awdurdod. Os yw manylion unigolion neu gerbydau'n cael eu gosod ar restr sy'n mynnu bod swyddog ymchwilio'n cael ei hysbysu neu mae cofnod yn cael ei wneud o leoliad neu symudiadau'r unigolyn neu'r cerbyd, neu bod y cerbyd neu'r unigolyn hwnnw'n destun monitro canolbwyntiedig er mwyn creu darlun o symudiadau'r unigolyn neu'r cerbyd, disgwylir awdurdodiad.

Mae'r rheswm dros osod cerbyd neu unigolyn ar restr o ddiddordeb, a'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd pan mae'n cael ei weld, yn hollbwysig.

Polisiâu, Protocolau, Arferion neu Gytundebau Gwasanaeth Cysylltiedig

Mae'r polisi hwn yn dilyn y safonau a nodir yn y Safonau ANPR Cenedlaethol ar gyfer Plismona a Gorfodi'r Gyfraith.



Monitro ac Adolygu

Y Cyfarwyddwr Cudd-wybodaeth sy'n gyfrifol am adolygu cynnwys y polisi hwn. Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol.

Dylid cyfeirio pob ymholiad sy'n ymwneud â'r polisi hwn at y Cyfarwyddwr Cudd-wybodaeth.

4. Rheoli Asedau

Bydd yr Arbenigwr ANPR, gyda chymorth y tîm cyllid, yn cynnal Cofrestr Asedau o bob gosodiad camera ANPR byw. Bydd y gofrestr hon yn disgrifio:

- Lleoliad yr ased;
- Gwneuthuriad neu fodel;
- Dyddiad prynu;
- Pris prynu; ac
- Unrhyw nodiadau neu fanylion eraill sy'n berthnasol i'w berfformiad neu wasanaeth.

O dro i dro, bydd y gofrestr yn cael ei chysoni â Chofrestr Asedau Sefydlog yr Heddlu a'i chynnal gan y tîm cyllid. Bydd y gwahaniaethau'n cael eu hymchwilio a'u datrys heb unrhyw oedi gormodol.

Ychwanegiadau a Newidiadau

Bydd asedau newydd yn cael eu prynu'n unol ag arferion a pholisi caffael yr heddlu. Bydd yr Arbenigwr ANPR, gyda chymorth y tîm cyllid, yn diweddarau'r Gofrestr Asedau fel bod y cofnod yn adlewyrchu'r offer presennol a'i leoliad.

Gwarediadau

SWYDDOGOL



Bydd yr Arbenigwr ANPR, gyda chymorth y tîm cyllid, yn diweddarau'r Gofrestr Asedau ar gyfer symud asedau a chael gwared arnynt. Cynhelir gwarediad corfforol yn unol ag arferion yr heddlu ar gyfer cael gwared asedau mewn modd rheoledig. Bydd yr Arbenigwr ANPR yn hysbysu'r tîm cyllid heb oedi diangen o ran cael gwared ar asedau, gan gydnabod lle mae asedau'n cadw gwerth llyfr adeg gwaredu. Bydd hyn yn ffurfio tâl ar gyfer cyllidebau referniw yn ystod y flwyddyn. Bydd gwarediadau'n cael eu hawdurdodi gan y Grŵp ANPR Strategol hyd y bo'n ymarferol cyn cymryd camau ar gyfer gwaredu.

Safleoedd Isadeiledd Newydd

Bydd yr Arbenigwr ANPR, gyda chymorth y tîm cyllid, yn diweddarau'r Gofrestr Asedau ar gyfer creu safleoedd isadeiledd newydd. Mae asedau a leolir yn y safleoedd newydd yn cael eu trin fel Ychwanegiadau ac Amnewidiadau fel uchod.

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchoddedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;

SWYDDOGOL



- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchoddedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchoddedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael [yma](#). Mae fersiwn Saesneg o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ar gael [yma](#). Ceir canllawiau ar gyfer cwblhau'r templed ar dudalen fewnrwyd yr adran amrywiaeth.

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Enw:	██████████
Adran:	CID
Llofnod:	██████████
Dyddiad:	24/08/21

SWYDDOGOL



DEDDF HAWLIAU DYNOL

TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIAETH

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

Enw:	██████████
Adran:	Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
Llofnod:	██████████
Dyddiad:	3/9/21

5. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

Nodir partïon perthnasol y polisi hwn isod;

- Cyfarwyddwr Cudd-wybodaeth;
- Ditectif Brif Arolygydd – Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu;
- Pennaeth Dadansoddi Cudd-wybodaeth;
- Dadansoddydd Cudd-wybodaeth;
- Rheolwr Cudd-wybodaeth;
- Swyddog Cudd-wybodaeth;
- Ymchwilydd Cudd-wybodaeth;
- Swyddog Cymorth Cudd-wybodaeth;
- Unrhyw aelod staff â mynediad at system ANPR neu sy'n gofyn am ddata o'r system.

Egwyddorion Cod Moeseg sy'n berthnasol ar gyfer y polisi hwn.

SWYDDOGOL



- Atebolrwydd – bod yn atebol am eich penderfyniadau, gweithredoedd ac esgeulustod.
- Arweinyddiaeth – arwain drwy enghraifft.
- Gwrthrychedd – gwneud dewisiadau ar sail tystiolaeth a'ch barn broffesiynol orau.
- Anhunanol – yr ydych yn gweithredu er budd y cyhoedd.
- Unplygrwydd – gwneud y peth iawn am y rhesymau iawn bob amser.
- Gonestrwydd – yr ydych yn eirwir a dibynadwy.
- Cyfrinachedd – trin gwybodaeth â pharch, a chael mynediad ati neu eu datgelu wrth gyflawni dyletswyddau plismona priodol yn unig.

COD MOESEG

TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

Enw:	Ditectif Uwch-arolygydd [REDACTED]
Adran:	CID
Llofnod:	[REDACTED]
Dyddiad:	25/08/2021



6. Gweithredu ac adolygu

Bydd yr adolygiad ac unrhyw ddiwygiadau yn ystyried:

- Effeithiolrwydd y polisi, fel yr aseswyd gan Fwrdd Gweithredol yr Heddlu ac archwilio mewnol / allanol;
- Unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth / canllawiau'r Swyddfa Gartref;
- Heriau i'r polisi; ac
- Unrhyw aneffeithlonrwydd a nodwyd mewn gweithredu.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisiâu ar wefan yr Heddlu. Polisiâu sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiodyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

SWYDDOGOL



Addas i'w chyhoeddi	Ydyw/Nac ydyw	Dyddiad	Llofnod
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd	Ydyw	25/08/2021	[REDACTED]
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi.			

Niwed – mewn cyhoeddi - Dim

Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu

(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

Addas i'w chyhoeddi	Ydyw/Nac ydyw	Dyddiad	Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd			
Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd.			

Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas.



Rheoli Fersiynau Llawn

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Rhesymwaith
1.0	07/11/2013	Yr Uwch- arolygydd [REDACTED]	Argraffiad cyntaf
2.0	05/06/2015	Yr Uwch- arolygydd [REDACTED]	Cydymffurfio â'r Dimpled ANPR Cenedlaethol
3.0	12/04/2016	Y Ditectif Arolygydd [REDACTED]	Cydymffurfio â'r Dimpled ANPR Cenedlaethol
3.1	25/02/2021	[REDACTED]	Diweddariad
3.2	01/03/2021	[REDACTED]	Diweddariad
3.3	25/08/2021	[REDACTED]	Diweddaru'r adran asedau a'r strwythur llywodraethu cenedlaethol
3.4	02/09/2021	[REDACTED]	Diweddaru Gofynion Archwilio
4.0	03/09/2021	[REDACTED]	Dyddiad cymeradwyo